

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau - Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari

Mawrth 2017

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai canser yr ofari yw'r chweched canser mwyaf cyffredin ymhlith menywod yng Nghymru yw. Mae'n gyffredin iawn ymhlith menywod sydd wedi bod trwy'r menopos (dros 50 oed fel arfer), er y gall effeithio ar fenywod waeth beth fo'u hoedran. Oherwydd y gall symptomau canser yr ofari fod yn debyg i symptomau cyflyrau eraill, mae'n gallu bod yn anodd adnabod y canser.

Nid yw sgrinio ar gyfer canser yr ofari ar gael ar y GIG ar hyn o bryd yng Nghymru nac yn unman arall yn y DU. Pwyllgor cynghorol annibynnol sy'n cynghori holl Weinidogion y DU yw Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) ac ar hyn o bryd nid yw'n argymhell sgrinio poblogaeth ar gyfer canser yr ofari. Mae'r UK NSC yn gofyn am dystiolaeth o'r ansawdd gorau posibl ynghylch y manteision i'r boblogaeth cyn bod rhaglen newydd yn cael ei hargymhell. Mae hyn yn hanfodol bwysig i sicrhau bod rhaglenni sgrinio yn gwneud mwy o dda nag o ddrwg ac i sicrhau bod cyllid y GIG a'r adnoddau staff yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae cael diagnosis cynnar o ganser yr ofari yn un o'r ffactorau pwysicaf wrth sicrhau canlyniad da, ond dim ond os oes mynediad sydyn at y driniaeth ddiweddaraf sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn dilyn y diagnosis hwnnw.

Isod, ceir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadw golwg ar y posibilrwydd o sefydlu rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser yr ofari ac yn rhoi ystyriaeth fanwl i unrhyw dystiolaeth newydd a gyflwynir. Yn arbennig, dylai Llywodraeth Cymru barhau i ystyried yn ofalus y cyngor a ddarperir gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

Ymateb: Derbyn

Mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolwyr ar UK NSC ac mae wedi sefydlu Pwyllgor Sgrinio Cymru i ystyried cyngor ac argymhellion UK NSC yng nghydestun Cymru.

Yn ddiweddar, mae UK NSC wedi adolygu ei gyngor yng ngoleuni darganfyddiadau a wnaed gan Dreial Cydweithredol Sgrinio ar gyfer Canser yr Ofari (UKCTOCS) a gyhoeddwyd yn 2016. Daeth UKCTOCS i'r casgliad bod angen cyfnod dilynol hirach er mwyn cael amcangyfrifon mwy pendant o ran a allai sgrinio atal marwolaethau oherwydd canser yr ofari. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Bydd unrhyw gyngor pellach gan UK NSC ar sgrinio ar gyfer canser yr ofari yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgrinio Cymru ac yn ffurfio

sylfaen y cyngor i Lywodraeth Cymru.

Y goblygiadau ariannol: Dim. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyfrannu at y gost o redeg Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ac yn cyllido'r gost fechan sy'n gysylltiedig â rhedeg Pwyllgor Sgrinio Cymru.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i sicrhau bod menywod sydd â symptomau canser yr ofari yn cael eu hatgyfeirio am brofion priodol a'u bod yn gallu cael diagnosis amserol. Fel rhan o hyn, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r prif gysylltiadau gofal sylfaenol ym maes canser i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad presennol o achosion o ganser yr ofari i lywio cynlluniau meddygfeydd a chlystyrau meddygon teulu ym mhob bwrdd iechyd, gyda golwg ar gyda golwg ar wella diagnosis cynnar.

Ymateb: Derbyn

Rhaid i dimau gofal sylfaenol ymateb yn briodol i'r ffordd y mae symptomau'n ymddangos mewn cleifion gan atgyfeirio at arbenigwr, os oes angen hynny, i gynnal ymchwiliadau canser. Mae'r GIG yng Nghymru yn gweithio i weithredu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoniaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar adnabod arwyddion canser ac atgyfeirio, a gyhoeddwyd yn 2015 ac mae hyn yn cael ei ategu gan adolygiadau gan feddygon teulu ar lefel practis o bob achos o ganser, yn ganser yr ysgyfaint, canser y stumog a'r perfedd a chanser yr ofari yn 2015 fel rhan o gontract meddygon teulu 2015-17. Trwy raglen Fframwaith Canser y grŵp gweithredu ar ganser, mae meddyg teulu wedi cael ei benodi ym mhob bwrdd iechyd i arwain ar gefnogi darparu gofal canser mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi arferion i sefydlu canllawiau NICE, cefnogi arferion atgyfeirio ac addysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Y goblygiadau ariannol: Dim. Mae'r gweithgareddau hyn eisoes yn cael eu hariannu drwy gyllidebau presennol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor i wneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o ganser yr ofari, gan gynnwys y symptomau cyffredin a phryd y dylai pobl ofyn am gyngor meddygol. Rydym yn credu y dylai hyn adeiladu ar yr ymgyrch fer a gynhaliwyd ar ddechrau 2016 gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ond y dylai ddysgu oddi wrth ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth llwyddiannus eraill a cheisio codi ymwybyddiaeth gyffredinol a phenodol o ganser yr ofari dros gyfnod hirach.

Ymateb: Gwrthod

Mae codi ymwybyddiaeth am arwyddion a symptomau cancer yn bwysig ac anogir pobl sydd â phryderon i siarad â'u meddyg teulu. Mae ein dull gweithredu wedi'i amlinellu yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer a gyhoeddwyd ar ei newydd wedd ym mis Tachwedd 2016. Mae'n cynnwys ymrwymiad i godi ymwybyddiaeth am symptomau cancer. Bydd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Cancer yn penderfynu ar gynnwys y gweithgarwch hwn ar sail nifer yr achosion o diwmor a'r canlyniadau. Mae Rhwydwaith Cancer Cymru eisoes wedi darparu un gyfres o weithgareddau codi ymwybyddiaeth yn genedlaethol, gan fod hwn yn faes blaenoriaeth cenedlaethol y cytunwyd arno. Bydd angen ystyried ymgyrch ganser fwy generig hefyd, a fydd yn gallu canolbwyntio ar yr arwyddion rhybudd cynnar neu newidiadau corfforol anesboniadwy, ac annog pobl i ofyn am gyngor gan eu meddyg teulu. Rydym yn disgwyl gweld cynigion y Grŵp Cyflawni ar gyfer Cancer ar gyfer ymgyrch dreigl tan y flwyddyn 2020 yn ddiweddarach eleni

Y goblygiadau ariannol: Dim

Rebecca Evans AC

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol